Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 2 Mawrth 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Jones | T M White |
| P M Black | E J King | R Fogarty |
| P Downing | E T Kirchner | S Bennett |
| C R Doyle | H Lawson | P N Bentu |
| M Durke | A S Lewis | A Davis |
| C R Evans | M B Lewis | C M J Evans |
| V M Evans | R D Lewis | M Bailey |
| E W Fitzgerald | W G Lewis | N Furlong |
| R Francis-Davies | P Lloyd | H J Gwilliam |
| L S Gibbard | P M Matthews | V A Holland |
| F M Gordon | P N May | D H Jenkins |
| K M Griffiths | D Phillips | S Joy |
| J A Hale | C L Philpott | S E Keeton |
| T J Hennegan | S Pritchard | M W Locke |
| C A Holley | A Pugh | N L Matthews |
| P R Hood-Williams | K M Roberts | J D McGettrick |
| D H Hopkins | B J Rowlands | F D O'Brien |
| L James | R V Smith | A J O'Connor |
| O G James | A H Stevens | J E Pritchard |
| Y V Jardine | R C Stewart | S J Rice |
| J W Jones | L G Thomas | M S Tribe |
| L R Jones | W G Thomas | R A Williams |
| M H Jones | L V Walton | A J Jeffery |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, B Hopkins, S M Jones a/ac H M Morris

## 119. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr S Bennett, P N Bentu, J P Curtice, C M J Evans, C A Holley, E J King, J W Jones, L R Jones, M H Jones, H Lawson, P Lloyd, N L Matthews, K M Roberts, M S Tribe a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 126 "Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2024/25 - 2026/27".

2) Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, J P Curtice, P Downing, M Durke, C M J Evans, C R Evans, V M Evans, E W Fitzgerald, L S Gibbard, K M Griffiths, J A Hale, C A Holley, D H Jenkins, J W Jones, L R Jones, M Jones, M H Jones, E J King, H Lawson, M B Lewis, R D Lewis, N L Matthews, P N May, F D O'Brien, A Pugh, S J Rice, K M Roberts, R V Smith, A H Stevens, M S Tribe a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 128 "Cyllideb Refeniw 2023/24".

3) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J P Curtice, M Durke, C M J Evans, V M Evans, L S Gibbard, F M Gordon, H J Gwilliam, C A Holley, L James, J W Jones, M Jones, L R Jones, M H Jones, S A Joy, H Lawson, P M Matthews, A S Lewis, W G Lewis, N L Matthews, P N May, A Pugh, K M Roberts, R V Smith, A H Stevens, L V Walton a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 130 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23- 2027/28".

4) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 129 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2023/24".

5) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 131 "Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 - 2026/27".

6) Datganodd y Cynghorydd S Bennett gysylltiad personol â Chofnod Rhif 132 "Penderfyniadau i'w Gwneud yn Unol â Rheoliadau Pennu Treth y Cyngor 2023/24".

## 120. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 yn amodol ar ddiwygio Cofnod Rhif 108 "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" i gynnwys y Cynghorwyr R D Lewis a F D O'Brien fel rhai a ddatganodd gysylltiad personol â Chofnod Rhif 115 "Datganiad Polisi Cyflog 2023/24".

**121. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

**122. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Coleg Gŵyr Abertawe - Gwobrau Prentisiaethau 2023**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol bump o weithwyr Cyngor Abertawe a'r cyngor ei hun am lwyddiant yng ngwobrau Prentisiaeth 2023 Coleg Gŵyr Abertawe yn ddiweddar.

Cynhelir y Gwobrau'n flynyddol i ddathlu'r llu o gynlluniau prentisiaeth llwyddiannus sy'n cael eu rhedeg gan Goleg Gŵyr Abertawe. Mae'r gwobrau'n cydnabod yr hyn a gyflawnwyd gan brentisiaid, cyflogwyr a staff y Coleg dros flwyddyn. Llongyfarchiadau i:

- Cieron Redden – Prentis Gosod Brics y Flwyddyn.
- Louise Rigby – Prentis Cymorth Cymwysiadau Digidol y Flwyddyn.
- Christopher Davies – Prentis Arweinyddiaeth a Rheoli'r Flwyddyn.
- Jemma Davies – Prentis Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol y Flwyddyn.
- Iestyn Thomas – Prentis Cefnogi Dysgu ac Addysgu'r Flwyddyn.
- Cyngor Abertawe – Prentis Gyflogwr y Flwyddyn (250+ o gyflogwyr).

**123. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

**124. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnodd pedwar aelod o'r cyhoedd gwestiynau. Roedd y cwestiynau'n ymwneud ag Eitem 19 "Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiynau 3 a 5 ac Eitem 9 "Cyllideb Refeniw 2023/24".

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth ac Arweinydd y Cyngor.

**125. Adroddiadau Cyllideb - Trosolwg o'r Cyflwyniad.**

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 adroddiad technegol bras mewn perthynas â'r adroddiadau am y gyllideb. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol cyffredinol.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor adroddiad bras am y gyllideb.

Dywedodd yr aelod llywyddol y dylid gofyn cwestiynau penodol ynghylch adroddiadau unigol a'u trafod pan fyddai’r adroddiad hwnnw'n cael ei drafod.

**126. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2024/25 - 2026/27.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan fanylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2026/27 fel sail am gynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.

**127. Council Procedure Rule 4 "Smoking / Refreshments / Mobile Phones / Comfort Break.**

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl tŷ bach o 10 munud.

**128. Cyllideb Refeniw 2023/24.**

Nododd yr Aelod Llywyddol y broses y byddai'n ei dilyn ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariad bach ynghylch ffigur setliad terfynol y grant llywodraeth leol. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol i'r Swyddog Adran 151. Ymatebodd Swyddog Adran 151.

Cynigiwyd yr adroddiad gwreiddiol gan y Cynghorydd R C Stewart. Eiliwyd gan y Cynghorydd D H Hopkins.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod tri diwygiad i'r gyllideb wedi dod i law. Un o Grŵp Uplands, un o'r Grŵp Ceidwadol ac un gan y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau

**Diwygiad Grŵp Uplands**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd S J Rice. Eiliwyd gan y Cynghorydd S A Joy.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*i)* *Lleihau’r* Ddarpariaeth Chwyddiant Ynni ar gyfer 2023/25 o £15m i £12.658 (gan arbed £2.342m).

*ii)* *Cynyddu* Treth y Cyngor 4.95% yn hytrach na 5.95% (cost o £1.342m).

*iii)* *Dileu* cynyddu Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau i Oedolion Cynyddu cyfraniad cleientiaid ac adolygu'r holl ffïoedd a chostau er mwyn cynnwys cynnydd chwyddiant amcangyfrifedig o 10% yn unol â chyfyngiadau gwariant (cost o £1m) ar Dudalen 84.

Yn dilyn dadl a phleidlais, methodd y diwygiad.

**Diwygiad y Grŵp Ceidwadol**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd W G Thomas. Eiliwyd gan y Cynghorydd L R Jones.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Rydym ni (y Grŵp Ceidwadol) yn cynnig cael gwared ar y taliad cydnabyddiaeth ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Datblygu Corfforaethol. Byddai hyn yn arbed £60,000 y flwyddyn yn fras. Cynigiwn y dylai'r cyllid hwn gael ei ddargyfeirio i gadw'r swydd wag bresennol yn y tîm Craffu a dylid defnyddio'r arian dros ben i leihau'r toriadau arfaethedig yn yr adran archwilio.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, methodd y diwygiad.

**Diwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd P M Black. Eiliwyd gan y Cynghorydd S Bennett.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Mae'r gyllideb hon wedi gweld sawl cynnydd mewn sawl maes yn y cyngor o ran ffïoedd a thaliadau.*

*Hoffem awgrymu nad yw ffïoedd meysydd parcio'n cynyddu er mwyn annog defnydd o ardal canol y ddinas, sy'n brif egwyddor yn agenda adfywio'r cyngor.*

*Er mwyn annog y defnydd o ganol y ddinas a lleoliadau eraill, rydym hefyd yn awgrymu y dylai'r ap newydd ar gyfer Abertawe, a fydd yn rhoi ffïoedd parcio gostyngol i breswylwyr Abertawe, ddarparu gostyngiad o 25% oddi ar gostau tocynnau bysus ar lwybrau a dargedwyd. Dylai hyn gael ei drafod â'r cwmnïau bysus a dylid cynnal y cynllun peilot hwn am flwyddyn ynghyd â rhewi costau meysydd parcio yng nghanol y ddinas.*

*Dylid defnyddio arian wrth gefn y gronfa adferiad economaidd er mwyn ariannu'r rhain, a dylai hynny gostio £500,000.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, methodd y diwygiad.

**Cynnig annibynnol**
Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnig annibynnol.

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar y newid fel a ganlyn:

| **O blaid (42 o gynghorwyr)** |
| --- |

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | P Lloyd |
| P N Bentu | T J Hennegan | N L Matthews |
| J P Curtice | V A Holland | P M Matthews |
| A Davis | D H Hopkins | D Phillips |
| P Downing | Y V Jardine | J E Pritchard |
| C R Doyle | D H Jenkins | S Pritchard |
| M Durke | M Jones | A Pugh |
| C R Evans | S E Keeton | K M Roberts |
| V M Evans | E J King | R V Smith |
| R A Fogarty | E T Kirchner | A H Stevens |
| R Francis-Davies | H Lawson | R C Stewart |
| L S Gibbard | A S Lewis | L V Walton |
| F M Gordon | M B Lewis | T M White |
| H J Gwilliam | W G Lewis | R A Williams |

| **Yn erbyn (6 Cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| P R Hood-Williams | R D Lewis | A J O’Connor |
| L R Jones | F D O’Brien | W G Thomas |

| **Ymwrthod (19 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| M Bailey | L James | J D McGettrick |
| S Bennett | A J Jeffery | C L Philpott |
| P B Black | J W Jones | S J Rice |
| C M J Evans | M H Jones | B J Rowlands |
| N Furlong | S A Joy | L G Thomas |
| K M Griffiths | M W Locke | M S Tribe |
| C A Holley | - | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd (0 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 fel y nodwyd yn Adran 9 yr adroddiad.

## 129. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2023/24.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

**Penderfynwyd** cymeradwy'r cynigion ar gyfer y Gyllideb Refeniw fel y nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

**130. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23- 2027/28.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 - 2027-28.

**Diwygiad Grŵp Uplands**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd S J Rice. Eiliwyd gan y Cynghorydd S A Joy.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*i)* *Dileu* Caffaeliad Canol y Ddinas a rhoi Rhaglen Gwella Effeithlonrwydd Ynni ac Ansawdd Aer Ysgolion (£2.825m) yn ei le ar dudalen 140.

Yn dilyn dadl a phleidlais, methodd y diwygiad.

**Cynnig annibynnol**
Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 24-2024 – 2027-2028 fel y nodir yn Atodiadau A, B C, D, E, F a G yr adroddiad.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd S J Rice, "Faint bydd yn cael ei wario ar atgyweirio ac adnewyddu ysgolion yn y flwyddyn sydd ar ddod?"

Dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**131. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 - 2026/27.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 - 2026-27.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2022/23.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2023/24 - 2026/27.

3) Cymeradwyo'r cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B sydd wedi'u rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd fel yr amlinellir yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

**132. Penderfyniad statudol - dylid gwneud penderfyniadau yn unol â'r rheoliadau wrth bennu Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu sawl penderfyniad statudol i'w gwneud yn unol â'r Rheoliadau o ran gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2023-2024.

O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Gyllideb Refeniw 2023-2024 a hefyd y newid i'r setliad gan Lywodraeth Cymru, newidiwyd y ffigurau yn y penderfyniad statudol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi a mabwysiadu'r penderfyniadau statudol fel y'u hamlinellwyd.

2) Nodi bod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022, wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 91,454 oedd y swm a gyfrifwyd gan y cyngor, yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'i diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn.

b) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---:|
| Llandeilo Ferwallt | 2,006 |
| Clydach | 2,561 |
| Gorseinon | 3,232 |
| Tre-gŵyr | 1,966 |
| Pengelli a Waungron | 447 |
| Llanilltud Gŵyr | 343 |
| Cilâ | 2,131 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 517 |
| Llangyfelach | 943 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,539 |
| Llanrhidian Isaf | 339 |
| Casllwchwr | 3,411 |
| Mawr | 755 |
| Y Mwmbwls | 9,909 |
| Penllergaer | 1,418 |
| Pennard | 1,539 |
| Pen-rhys | 483 |
| Pontarddulais | 2,299 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,006 |
| Porth Einon | 467 |
| Reynoldston | 317 |
| Rhosili | 207 |
| Y Crwys | 698 |
| Cilâ Uchaf | 598 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd gan y cyngor, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

3) Caiff y symiau canlynol eu cyfrifo gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(a) £876,287,922 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf.

(b) £314,924,933 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(3)(a), 32(3)(c) a 32(3a) o'r Ddeddf.

(c) £561,362,989 yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm yn 3(a) uchod a'r cyfanswm yn 3(b) uchod, ac mae'n swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn.

(d) £417,864,475 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, a'r Grant Cynnal Refeniw heb gymorth trethi annomestig dewisol.

(e) £1,549.08 yw'r swm yn (3)(c) heb y swm yn (3)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn.

(f) £1,829,076 yw cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.

(g) £1,549.08 yw'r swm yn (3)(e) heb y canlyniad a roddir trwy rannu'r swm yn (3)(f) uchod â'r swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(h) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,588.96 |
| Clydach | 1,607.90 |
| Gorseinon | 1,591.08 |
| Tre-gŵyr | 1,566.31 |
| Pengelli a Waungron | 1,575.93 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,568.58 |
| Cilâ | 1,560.58 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,564.36 |
| Llangyfelach | 1,580.89 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,654.55 |
| Llanrhidian Isaf | 1,568.25 |
| Casllwchwr | 1,588.99 |
| Mawr | 1,641.80 |

| | |
|---|---|
| Y Mwmbwls | 1,609.97 |
| Penllergaer | 1,556.84 |
| Pennard | 1,608.33 |
| Pen-rhys | 1,575.98 |
| Pontarddulais | 1,608.91 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,588.85 |
| Porth Einon | 1,566.21 |
| Reynoldston | 1,588.51 |
| Rhosili | 1,573.23 |
| Y Crwys | 1,592.17 |
| Cilâ Uchaf | 1,580.85 |

dyma'r symiau a roddwyd drwy adio'r swm yn (3)(e) uchod a symiau'r eitemau arbennig sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y cyngor a grybwyllwyd uchod, sydd wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (2)(b) uchod, a'u cyfrifo gan y cyngor yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i anheddau yn rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(i) Rhannau o ardal y cyngor:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,059.31 | 1,235.86 | 1,412.41 | 1,588.96 | 1,942.06 | 2,295.16 | 2,648.27 | 3,177.92 | 3,707.57 |
| Clydach | 1,071.93 | 1,250.59 | 1,429.24 | 1,607.90 | 1,965.21 | 2,322.52 | 2,679.83 | 3,215.80 | 3,751.77 |
| Gorseinon | 1,060.72 | 1,237.51 | 1,414.29 | 1,591.08 | 1,944.65 | 2,298.23 | 2,651.80 | 3,182.16 | 3,712.52 |
| Tre-gŵyr | 1,044.21 | 1,218.24 | 1,392.28 | 1,566.31 | 1,914.38 | 2,262.45 | 2,610.52 | 3,132.62 | 3,654.72 |
| Pengelli a Waungron | 1,050.62 | 1,225.72 | 1,400.83 | 1,575.93 | 1,926.14 | 2,276.34 | 2,626.55 | 3,151.86 | 3,677.17 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,045.72 | 1,220.01 | 1,394.29 | 1,568.58 | 1,917.15 | 2,265.73 | 2,614.30 | 3,137.16 | 3,660.02 |
| Cilâ | 1,040.39 | 1,213.78 | 1,387.18 | 1,560.58 | 1,907.38 | 2,254.17 | 2,600.97 | 3,121.16 | 3,641.35 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,042.91 | 1,216.72 | 1,390.54 | 1,564.36 | 1,912.00 | 2,259.63 | 2,607.27 | 3,128.72 | 3,650.17 |
| Llangyfelach | 1,053.93 | 1,229.58 | 1,405.24 | 1,580.89 | 1,932.20 | 2,283.51 | 2,634.82 | 3,161.78 | 3,688.74 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,103.03 | 1,286.87 | 1,470.71 | 1,654.55 | 2,022.23 | 2,389.91 | 2,757.58 | 3,309.10 | 3,860.62 |
| Llanrhidian Isaf | 1,045.50 | 1,219.75 | 1,394.00 | 1,568.25 | 1,916.75 | 2,265.25 | 2,613.75 | 3,136.50 | 3,659.25 |
| Casllwchwr | 1,059.33 | 1,235.88 | 1,412.44 | 1,588.99 | 1,942.10 | 2,295.21 | 2,648.32 | 3,177.98 | 3,707.64 |
| Mawr | 1,094.53 | 1,276.96 | 1,459.38 | 1,641.80 | 2,006.64 | 2,371.49 | 2,736.33 | 3,283.60 | 3,830.87 |
| Y Mwmbwls | 1,073.31 | 1,252.20 | 1,431.08 | 1,609.97 | 1,967.74 | 2,325.51 | 2,683.28 | 3,219.94 | 3,756.60 |
| Penllergaer | 1,037.89 | 1,210.88 | 1,383.86 | 1,556.84 | 1,902.80 | 2,248.77 | 2,594.73 | 3,113.68 | 3,632.63 |
| Pennard | 1,072.22 | 1,250.92 | 1,429.63 | 1,608.33 | 1,965.74 | 2,323.14 | 2,680.55 | 3,216.66 | 3,752.77 |
| Pen-rhys | 1,050.65 | 1,225.76 | 1,400.87 | 1,575.98 | 1,926.20 | 2,276.42 | 2,626.63 | 3,151.96 | 3,677.29 |
| Pontarddulais | 1,072.61 | 1,251.37 | 1,430.14 | 1,608.91 | 1,966.45 | 2,323.98 | 2,681.52 | 3,217.82 | 3,754.12 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,059.23 | 1,235.77 | 1,412.31 | 1,588.85 | 1,941.93 | 2,295.01 | 2,648.08 | 3,177.70 | 3,707.32 |
| Porth Einon | 1,044.14 | 1,218.16 | 1,392.19 | 1,566.21 | 1,914.26 | 2,262.30 | 2,610.35 | 3,132.42 | 3,654.49 |
| Reynoldston | 1,059.01 | 1,235.51 | 1,412.01 | 1,588.51 | 1,941.51 | 2,294.51 | 2,647.52 | 3,177.02 | 3,706.52 |
| Rhosili | 1,048.82 | 1,223.62 | 1,398.43 | 1,573.23 | 1,922.84 | 2,272.44 | 2,622.05 | 3,146.46 | 3,670.87 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Crwys | 1,061.45 | 1,238.35 | 1,415.26 | 1,592.17 | 1,945.99 | 2,299.80 | 2,653.62 | 3,184.34 | 3,715.06 |
| Cilâ Uchaf | 1,053.90 | 1,229.55 | 1,405.20 | 1,580.85 | 1,932.15 | 2,283.45 | 2,634.75 | 3,161.70 | 3,688.65 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 1,032.72 | 1,204.84 | 1,376.96 | 1,549.08 | 1,893.32 | 2,237.56 | 2,581.80 | 3,098.16 | 3,614.52 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd drwy luosi'r symiau yn (3)(g) a (3)(h) uchod â'r nifer sydd, yn ôl cyfanswm y boblogaeth a nodwyd yn Adran 5 (1) Y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol, wedi'u rhannu â'r nifer sydd, yn y gyfran honno, yn gymwys i anheddau a restrir ym mand D a gyfrifir gan y cyngor yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau'r anheddau a restrir yn y bandiau prisio gwahanol;

4) Nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi nodi'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 mewn preseptau a gyflwynwyd i'r cyngor yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 216.31 | 252.37 | 288.42 | 324.47 | 396.57 | 468.68 | 540.78 | 648.94 | 757.10 |

5) Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (3)(I) a (4) uchod, mae'r cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992, yn gosod, trwy hyn, y symiau canlynol fel y symiau Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a gaiff eu dangos isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,275.62 | 1,488.23 | 1,700.83 | 1,913.43 | 2,338.63 | 2,763.84 | 3,189.05 | 3,826.86 | 4,464.67 |
| Clydach | 1,288.24 | 1,502.96 | 1,717.66 | 1,932.37 | 2,361.78 | 2,791.20 | 3,220.61 | 3,864.74 | 4,508.87 |
| Gorseinon | 1,277.03 | 1,489.88 | 1,702.71 | 1,915.55 | 2,341.22 | 2,766.91 | 3,192.58 | 3,831.10 | 4,469.62 |
| Tre-gŵyr | 1,260.52 | 1,470.61 | 1,680.70 | 1,890.78 | 2,310.95 | 2,731.13 | 3,151.30 | 3,781.56 | 4,411.82 |
| Pengelli a Waungron | 1,266.93 | 1,478.09 | 1,689.25 | 1,900.40 | 2,322.71 | 2,745.02 | 3,167.33 | 3,800.80 | 4,434.27 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,262.03 | 1,472.38 | 1,682.71 | 1,893.05 | 2,313.72 | 2,734.41 | 3,155.08 | 3,786.10 | 4,417.12 |
| Cilâ | 1,256.70 | 1,466.15 | 1,675.60 | 1,885.05 | 2,303.95 | 2,722.85 | 3,141.75 | 3,770.10 | 4,398.45 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,259.22 | 1,469.09 | 1,678.96 | 1,888.83 | 2,308.57 | 2,728.31 | 3,148.05 | 3,777.66 | 4,407.27 |
| Llangyfelach | 1,270.24 | 1,481.95 | 1,693.66 | 1,905.36 | 2,328.77 | 2,752.19 | 3,175.60 | 3,810.72 | 4,445.84 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,319.34 | 1,539.24 | 1,759.13 | 1,979.02 | 2,418.80 | 2,858.59 | 3,298.36 | 3,958.04 | 4,617.72 |
| Llanrhidian Isaf | 1,261.81 | 1,472.12 | 1,682.42 | 1,892.72 | 2,313.32 | 2,733.93 | 3,154.53 | 3,785.44 | 4,416.35 |
| Casllwchwr | 1,275.64 | 1,488.25 | 1,700.86 | 1,913.46 | 2,338.67 | 2,763.89 | 3,189.10 | 3,826.92 | 4,464.74 |
| Mawr | 1,310.84 | 1,529.33 | 1,747.80 | 1,966.27 | 2,403.21 | 2,840.17 | 3,277.11 | 3,932.54 | 4,587.97 |
| Y Mwmbwls | 1,289.62 | 1,504.57 | 1,719.50 | 1,934.44 | 2,364.31 | 2,794.19 | 3,224.06 | 3,868.88 | 4,513.70 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penllergaer | 1,254.20 | 1,463.25 | 1,672.28 | 1,881.31 | 2,299.37 | 2,717.45 | 3,135.51 | 3,762.62 | 4,389.73 |
| Pennard | 1,288.53 | 1,503.29 | 1,718.05 | 1,932.80 | 2,362.31 | 2,791.82 | 3,221.33 | 3,865.60 | 4,509.87 |
| Pen-rhys | 1,266.96 | 1,478.13 | 1,689.29 | 1,900.45 | 2,322.77 | 2,745.10 | 3,167.41 | 3,800.90 | 4,434.39 |
| Pontarddulais | 1,288.92 | 1,503.74 | 1,718.56 | 1,933.38 | 2,363.02 | 2,792.66 | 3,222.30 | 3,866.76 | 4,511.22 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,275.54 | 1,488.14 | 1,700.73 | 1,913.32 | 2,338.50 | 2,763.69 | 3,188.86 | 3,826.64 | 4,464.42 |
| Porth Einon | 1,260.45 | 1,470.53 | 1,680.61 | 1,890.68 | 2,310.83 | 2,730.98 | 3,151.13 | 3,781.36 | 4,411.59 |
| Reynoldston | 1,275.32 | 1,487.88 | 1,700.43 | 1,912.98 | 2,338.08 | 2,763.19 | 3,188.30 | 3,825.96 | 4,463.62 |
| Rhosili | 1,265.13 | 1,475.99 | 1,686.85 | 1,897.70 | 2,319.41 | 2,741.12 | 3,162.83 | 3,795.40 | 4,427.97 |
| Y Crwys | 1,277.76 | 1,490.72 | 1,703.68 | 1,916.64 | 2,342.56 | 2,768.48 | 3,194.40 | 3,833.28 | 4,472.16 |
| Cilâ Uchaf | 1,270.21 | 1,481.92 | 1,693.62 | 1,905.32 | 2,328.72 | 2,752.13 | 3,175.53 | 3,810.64 | 4,445.75 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 1,249.03 | 1,457.21 | 1,665.38 | 1,873.55 | 2,289.89 | 2,706.24 | 3,122.58 | 3,747.10 | 4,371.62 |

## 133. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darparu Lleiafswm Refeniw 2023/24, Adroddiad Adolygu Blynyddol Dros Dro Rheoli'r Trysorlys 2023/24, Rheoli'r Trysorlys 2021/22.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodus, y Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24 a nodi Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2022/2023.

Penderfynwyd

1) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus (Adrannau 2-7 yr adroddiad).

2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi (Adran 8 yr adroddiad).

3) Cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Adran 9 yr adroddiad).

4) Nodi Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2022/23 (Atodiad H yr adroddiad).

5) Nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021/22 (Atodiad I o'r adroddiad).

## 134. Strategaeth Gyfalaf 2023/24- 2027/28.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio ac yn llywio'r rhaglen gyfalaf saith blynedd.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2022/23 - 2027/28.

## 135. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn cyflwyno drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 y

cyngor, sy'n bodloni'r gofynion statudol i gyhoeddi adroddiad hunanasesu blynyddol ac adroddiad blynyddol ar les o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu tro.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cyhoeddi'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 drafft ("yr Adolygiad").

## 136. Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Abertawe Adroddiad Adolygu a Amnewid.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Abertawe a gofynnodd am gymeradwyaeth i ymarfer ymgynghori gael ei gynnal ar Adroddiad Adolygu drafft CDLl Abertawe a Chytundeb Cyflawni CDLl Newydd Abertawe.

**Penderfynwyd**

1) Nodi canfyddiadau 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Abertawe (a atodir yn Atodiad A i'r adroddiad) a chyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru.

2) Nodi canfyddiadau Adroddiad Adolygu drafft CDLl Abertawe (a atodir yn Atodiad B i'r adroddiad) a chyflwyno'r ddogfen i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ymgynghori arni.

3) Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni drafft CDLl Newydd Abertawe (a atodir yn Atodiad C i'r adroddiad) er mwyn i'r cyhoedd a rhanddeiliad ymgynghori arni.

4) Awdurdodi Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, neu'r Swyddog dirprwyedig priodol, i wneud unrhyw ddiwygiadau teipograffyddol, gramadegol, cyflwyniadol neu ffeithiol i'r 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol, Adroddiad Adolygu drafft y CDLl a Chytundeb Cyflawni drafft y CDLl Newydd.

## 137. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**Pwyllgor y Rhaglen Graffu**
Tynnu'r Cynghorydd T J Hennegan
Ychwanegu lle Llafur gwag.

## 138. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A'**

Cyflwynwyd dau ar bymtheg (17) o 'Gwestiynau Atodol' ar gyfer Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd naw (9) ‘cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer’.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.33 pm

**Cadeirydd**